OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2013 Rhif 2032 (Cy. 200)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd i Ffin Cymru/Lloegr, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Awst 2013* |
| *Yn dod i rym* | *27 Awst 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[(1)] a phob pŵer galluogi arall[(2)], yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Awst 2013. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd i Ffin Cymru/Lloegr, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, a chan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 22:00 o'r gloch ar 27 Awst 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o'r gefnffordd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedlo, na pheri i unrhyw feic pedlo gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Awst 2013

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN 1

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o ddechrau trwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa’r Orsedd i ffin Cymru/Lloegr.

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r de sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr at ddiwedd trwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa’r Orsedd.

## ATODLEN 2

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o bwynt 1.6 km i'r de o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa’r Orsedd hyd at ddechrau trwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa’r Orsedd.